# Pobl Sy'n Ein Helpu
# Gweithgareddau Dilynol i Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer "Pobl Sy'n Ein Helpu" yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu y Cyfnod Sylfaen o'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013.

| **Pobl Sy'n Ein Helpu Gweithgareddau dilynol** | Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013 | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 -7 yng Nghymru 2008.** | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Gweithgaredd dilynol – adolygu "Pobl sy'n ein helpu" | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | ▪ Bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol.<br>▪ Mynegi a chyfathrebu gwahanol deimladau ac emosiynau – rhai eu hunain ac eraill. | ▪ Gwahanol adnoddau megis y rheini mewn print ac ar ffurfiau rhyngweithiol |
| 2. "Gofalu Amdanom" | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(D)sd<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | ▪ Mynegi a chyfathrebu gwahanol deimladau ac emosiynau – rhai eu hunain ac eraill.<br>▪ Dangos cywreinrwydd a datblygu agweddau positif tuag at brofiadau newydd da dysgu<br>▪ Dod yn feddylwyr a dysgwyr annibynnol<br>▪ Datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn y maent yn dda am ei wneud<br>▪ Gwerthfawrogi eu dysgu, llwyddiant a'u cyflawniadau eu hunain a rhai pobl eraill<br>▪ Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain | ▪ Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau, i fod yn greadigol a dychmygol |
| 3. Argyfwng....help! | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(Y)ydd | ▪ Cyfathrebu beth sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac anghywir, yn deg ac annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol.<br>▪ Ymateb yn bersonol i | ▪ Gweithgareddau sy'n eu galluogi i ddatrys problemau a thrafod canlyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rh(DYRH)apch<br>Rh(DSRH)dffrhb rhrh | sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed<br>▪ Gofyn cwestiynau ynglŷn beth sy'n bwysig mewn bywyd o bersbectif personol ac o bersbectif pobl eraill. | ▪ Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br>▪ Gweithgareddau sy'n cyfrannu i'w diogelwch eu hunain |
| 4. Gweithgaredd Theatr | Ll(D)sd<br>Ll(D)c<br>Ll(D)y&d<br><br>Ll(Y)ydd<br>Ll(Y)s&th<br><br>Rh(DYRH)apch<br>Rh(DYRH)c&c | ▪ Dangos gofal, parch a hoffter tuag at blant ac oedolion eraill a thuag at eu hamgylchedd. | ▪ Gweithgareddau sy'n cyfrannu i'w diogelwch eu hunain |
| 5. DVD Diwrnod Jack | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br><br>Ll(D)d&d<br><br>Ll(Y)ydd<br>Ll(Y)s&th<br>Ll(Y)i<br><br>Rh(DYRH)apch<br>Rh(DYRH)c&c<br>Rh(DSD)cchd | ▪ Gwrando ac ymateb yn briodol ac yn effeithiol, gyda sylw a chanolbwyntiad cynyddol<br>▪ Mabwysiadu rôl, gwneud defnydd ymwybodol o symudiad, osgo a lleferydd gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i rôl neu sefyllfa | ▪ Siarad a chyfathrebu yn ddigymell a thrwy weithgareddau wedi eu strwythuro<br>▪ Siarad am faterion sydd o ddiddordeb uniongyrchol a phersonol<br>▪ Gofyn ac ateb cwestiynau |

**1. Gweithgaredd dilynol - adolygu "Pobl sy'n ein helpu ni"** I gynnal y gweithgaredd hwn a chysylltu gyda'r wers flaenorol defnyddiwch luniau o wasanaethau a allai helpu'r plant o ddydd i ddydd - heddlu, tân ac achub, ambiwlans, gwyliwr y glannau ac achub mynydd. (Gweithgaredd 1a)
Gall yr athro/athrawes ddefnyddio'r negeseuon yng nghyflwyniad "Pobl sy'n ein helpu ni" ac ailadrodd gwaith y Swyddog Cyswllt Ysgolion, gan sicrhau bod y cwestiynau yn atgyfnerthu'r pwyntiau canlynol:

- Mae swyddogion heddlu yno i'ch helpu
- Mae pobl eraill yno i'ch helpu mewn argyfwng.
- Penderfynwch a yw digwyddiad yn argyfwng.
- Mewn argyfwng dywedwch wrth oedolyn neu ffoniwch 999.

**2. "Gofalu amdanom"** Bydd yr athro/athrawes yn cyflwyno'r pwnc gyda'r cwestiwn beth a olygwn gyda'r gair gofalu? (teimlad cariadus, edrych ar ôl rhywun neu rywbeth ac ati) Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am enghreifftiau lle maent yn gofalu am rywun neu rywbeth. Yna arweiniwch nhw i'r cwestiwn "Pwy sy'n gofalu amdanom ni?" gan esbonio y bydd gwahanol unigolion yn gofalu amdanynt. Gallant fod mewn gwahanol leoedd y bydd y disgyblion yn gyfarwydd â hwy yn y lluniau canlynol o leoliadau.

Eisteddwch y dosbarth mewn cylch; rhowch y cardiau pennawd ac ymateb yng nghanol y cylch (2a) dosbarthwch yr holl gardiau lleoliadau cartref (2b) ac ysgol (2c) ymhlith y dosbarth. Esboniwch eu bod yn gyfarwydd iawn â'r lleoliadau. Gofynnwch i'r plant roi'r gwahanol leoliadau cartref ac ysgol sydd yn eu dwylo o dan y cerdyn pennawd cywir - CARTREF (gwyrdd) ac YSGOL (glas).
Trafodwch ac adolygwch ddewis cartref/ysgol y disgyblion. Chwiliwch am ymatebion personol gan bob plentyn yn ei dro. Gwobrwywch ymatebion personol gyda chardiau wynebau hapus a thrist (2a).

Yna dosbarthwch y cardiau pobl cartref (2d) a chardiau pobl ysgol (2e) a gofynnwch iddynt eu rhoi o dan yr un penawdau. Cyn y cam nesaf sicrhewch eu bod yn deall yn iawn ble a pwy y mae'r lluniau yn eu cynrychioli.

Ailadroddwch ystyr y gair 'gofalu'. Yna gofynnwch i'r plant nodi'r bobl sy'n eu cynorthwyo ac yn gofalu amdanynt yn y ddau amgylchedd; yn y CARTREF ac yn yr YSGOL (bydd rhai lluniau yn gymwys i'r ddau). Unwaith eto trafodwch ac adolygwch ddewisiadau'r disgyblion.

Atebion posibl yw:

> <u>Amgylchedd y cartref</u> (gwyrdd): rhieni, gofalwyr, nain/taid/mam-gu/tad-cu, modryb/ewythr, aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau a chymdogion.
>
> <u>Amgylchedd yr ysgol</u> (glas): athrawon, staff cefnogi, cogydd, glanhawyr, person lolipop, ffrindiau'r ysgol, gyrrwr bws/tacsi, nyrs ysgol, heddlu.

Gofynnwch i'r grŵp feddwl yn ofalus am y ffyrdd y rhoddir gofal a chymorth i blant. Defnyddiwch y cardiau lluniau gofalu (2f) i ysgogi a chynnal trafodaeth ddosbarth. Gofynnwch i'r disgyblion sut y mae'r bobl hyn yn dangos gofal.

Atebion posibl yw:

> <u>Dylai rhieni a gofalwyr ddarparu</u>: bwyd, cwsg, dillad newydd a glân, cynhesrwydd, cariad, cartref, meddyginiaeth yn ystod salwch, teganau ac ati.
> <u>Mae pobl yn yr ysgol yn darparu:</u> gweithgareddau dosbarth, cymorth a chefnogaeth, cyfleoedd i chwarae, bwyd, mannau diogel a glân ac ati.

Yn olaf, dychwelwch at y rhagarweiniad; y tu allan i amgylcheddau'r ysgol a'u teulu gall y pant ddisgwyl cymorth gan y gwasanaethau brys.

**3. Argyfwng…help!** Sicrhewch fod pob aelod o'r dosbarth yn gwybod ei enw, cyfeiriad a rhif ffôn. Gall yr athro/athrawes atgyfnerthu'r neges a gyflwynwyd gan y swyddog heddlu ynglŷn â 'sefyllfaoedd argyfwng' a ffonio 999 gan ddefnyddio'r poster a ddarperir (3.a). Ddefnyddiwch adnodd 3.b (fel enghraifft) i ddangos y gwahaniaeth rhwng galwad argyfwng ddilys, galwad ddiangen a galwad branc.

Yna gellir annog y plant i feddwl am eu storïau eu hunain - sefyllfaoedd ar y stryd, yn y parc, ar y traeth, mewn archfarchnad ac ati. Helpwch nhw i wahaniaethu rhwng galwad ddilys a galwad ddiangen.

Fel dosbarth penderfynwch pa sefyllfaoedd sy'n haeddu galwad ffôn 999.

Isod ceir awgrymiadau:

- Mae eich ffrind yn galw enwau arnoch
- Rydych yn colli eich arian ffrwyth o'ch bag ysgol
- Mae teiar car eich tad yn fflat
- Rydych yn gweld tân yn sied yr ardd drws nesaf
- Mae eich ci wedi bod ar goll ers ben bore
- Rydych yn gweld bachgen yn cael ei daro oddi ar ei feic gan gar
- Rydych yn llosgi eich llaw yn ddrwg ar y ffwrn
- Rydych yn gweld bachgen yn arnofio ar wely aer allan i'r môr

Neu, defnyddiwch hambyrddau 'Small World' i chwarae rôl senarios e.e. tŷ ar dân.

Pan fyddwch yn gwneud galwad 999 mae'n syniad da i gymryd tair anadl ddofn yn gyntaf, gan fod hyn yn helpu'r meddwl i ganolbwyntio ac yna gwneud yr alwad. (Mae plant bach yn ymateb yn wych i waith anadlu ac mae'n sgil ardderchog i'w defnyddio mewn sefyllfa o argyfwng).

Dosbarthwch y dalennau lliwio (3.c) neu'r ddalen liwio 999 (3.d) i'r dosbarth i atgyfnerthu rôl gefnogol swyddogion heddlu.

**4. Gweithgaredd Theatr** – Gellir gwneud y gweithgaredd hwn mewn grwpiau a phob plentyn yn chwarae rhan cymeriad allweddol o lyfr stori gwyliau Sara.
Ar gyfer pob grŵp: Argraffwch gopi mawr o'r Olygfa Theatr (4.a) ar gerdyn. Plygwch y cerdyn yn dri er mwyn i'r olygfa sefyll i fyny. Torrwch allan y cymeriadau o'r adnodd a ddarperir (4.b). Gludwch y cymeriadau ar gerdyn trwchus ac yna ar ffyn i wneud actorion bach. Gofynnwch i'r disgyblion greu drama am Sara, ei ffrindiau a'r gwasanaethau brys a'i hactio allan gan ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir.
Gellir awgrymu syniadau dechreuol fel:

Mynd/Teithio mewn Injan Dân
Chwarae yn ymyl ffordd brysur
Darganfod pwrs llawn o arian yn y parc
Colli eich brawd yn y dref
Cwympo oddi ar eich beic
Colli eich chwaer fach ar y traeth
Gofyn am gyfarwyddiadau i'r siop hufen iâ
Darganfod ci sydd wedi brifo

Gellir cyflwyno'r dramâu bach i'r dosbarth cyfan neu grwpiau eraill. Dylai'r athro bwysleisio'r negeseuon diogelwch pwysig, er enghraifft i alw 999 bob tro ayb.

**5. DVD Diwrnod Jack** - Bydd y gweithgaredd dysgu awyr agored hwn yn gwella pob agwedd ar ddatblygiad y plant: cymdeithasol, corfforol, creadigol, diwylliannol a phersonol. Mae'r amgylchedd awyr agored yn ddelfrydol ar gyfer dysgu arbrofol, gan ei fod yn cynnig cyfleoedd unigryw i fod yn greadigol, symud o gwmpas, i fod yn swnllyd ac i asesu risg.

(1) Gwyliwch DVD (5a) Diwrnod Jack gyda'ch disgyblion. Trafodwch beth sy'n digwydd yn y ffilm.

Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau (5b):

- Ble aeth Jack a'i fam am dro?
- Pa liw crys-t oedd Jack yn ei wisgo?
- Beth oedd enw ci Jack?
- Beth roddodd ofn i gi Jack?
- Beth ddigwyddodd i fam Jack?
- Pa rif wnaeth Jack ddeialu?
- Beth ddywedodd Jack wrth y cysylltydd?
- Beth ddwedodd y cysylltydd wrth Jack am wneud?
- Sut ydych chi'n meddwl oedd Jack yn teimlo?
- Pwy ddaeth i helpu mam Jack?
- Pwy arhosodd yn agos at Jack?
- Beth ydych chi'n feddwl ddigwyddodd nesaf?

Cefnogir y gweithgaredd hwn gan gyflwyniad PowerPoint o luniau llonydd (5c) o'r ffilm y gellir eu hargraffu ar gyfer eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Fel arall, rhannwch y dosbarth yn barau neu grwpiau bach a gofynnwch i'r disgyblion lunio eu cwestiynau eu hunain am bob un o'r ffotograffau llonydd yn adnodd (5c). Rhoi adborth i'r dosbarth cyfan.

Mae'r lluniau llonydd hefyd yn addas ar gyfer gwahanol weithgareddau dilyniannu y gellir eu harchwilio yn yr ystafell ddosbarth.

(2) Cynlluniwch i fynd am dro gyda'ch dosbarth

- Trafodwch gyda'r disgyblion ddillad addas ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn a pha offer hanfodol y dylent fynd gyda hwy.
- Ystyriwch ddatblygu set o reolau awyr agored gyda'ch dosbarth e.e. arhoswch yn agos i'r oedolyn sydd gyda chi bob amser, caewch gatiau ar eich hôl, ewch â'ch sbwriel adref neu rhowch ef yn y bin.
- Canfyddwch gyda'ch disgyblion y risgiau a'r peryglon posibl y gallant ddod ar eu traws tra byddant tu allan a beth ddylent ei wneud mewn argyfwng. Cofnodwch y rhain ar bapur siart fflip i'w defnyddio gyda'r dosbarth wedi'r daith.
- Gallai'r dosbarth lunio rhestr Deg Uchaf o gynghorion diogelwch. Gallai'r teitlau posibl gynnwys: cadw'n ddiogel yn agos i ffyrdd, cadw'n ddiogel yn y goedwig, cadw'n ddiogel ar y fferm, cadw'n ddiogel yn yr haul, cadw'n ddiogel yn agos i ddŵr.
- Paratowch a thrafodwch gyda'r disgyblion beth fyddent yn ei roi mewn pecyn antur ar y daith gerdded (ffôn symudol, sialc a thâp mesur, chwyddwydr, potyn bychan, bagiau plastig y gellir eu selio, llyfr nodiadau a phensil, bwyd a diod a chamera digidol).

Pan ar y daith, gofynnwch i'r disgyblion awgrymu sut i ddefnyddio eu pecyn antur. Rhowch Log Antur Jack (5d) i bob pâr o ddisygblion a gofynwch iddynt lenwi cofnod o'r hyn y maent yn ei weld, yn ei deimlo ac ati, a chasglu unrhyw eitemau diddordol i'w harddangos yn yr ystafell ddosbarth.

Wedi dychwelyd i'r ystafell ddosbarth gall y disgyblion gydweithio i drafod nodweddion tebyg a gwahanol.

Yn dilyn y daith bydd disgyblion yn creu map o'u taith ar raddfa fawr gan nodi nodweddion daearyddol megis pont, afon, coed, llwybr, ffordd ac adeiladau.

Yn ychwanegol at hyn, dylai'r disgyblion gyfeirio'n ôl at eu rhestr o risgiau a pheryglon. Gellid dangos y gwahanol lefel a risg/perygl i ddiogelwch personol ar y map gan ddefnyddio system goleuadau traffig (5e) neu allwedd tebyg. Sgwrsiwch ynglŷn â sut y gallant leihau'r risg i'w diogelwch personol a diogelwch eraill.

Trafodwch pryd y dylech ffonio 999. (*Pan fo **gwir** argyfwng)* Gallai athrawon nawr gyfeirio at weithgaredd 3 uchod i drafod ac atgyfnerthu pryd y mae'n briodol i alw'r gwasanaethau brys. Os yw'r disgyblion yn ddigon aeddfed i ystyried y gwahaniaeth, soniwch am '101', y rhif i'w ffonio am gymorth pan **nad yw'n wir argyfwng**.